# Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | Twristiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Dydd Mercher 19 Hydref |
| **Lleoliad:** | Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Sam Rowlands (SR) | AS dros Ogledd Cymru |
| Tom Giffard (TG) | AS dros Orllewin De Cymru |
| Carolyn Thomas (CT) | AS dros Ogledd Cymru |
| Rhun ap Iorwerth (RI) | AS dros Ynys Môn |
| Zak Weaver (ZW) | Staff cymorth i Sam Rowlands AS |
| Harry Saville (HS) | Staff cymorth i Sam Rowlands AS |
| Jena Quilter (JQ) | Staff cymorth i Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| Suzy Davies (SD) | Cadeirydd, Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Greason-Walker (AGW) | Eiriolwr Polisi, Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| David Greenhough (DG) | Pennaeth Ardoll Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru |
| Anna Adams (AA) | Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Strategaeth Dreth a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru |
| David Chapman (DC) | Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gymru, UK Hospitality |
| Alistair Handyside (AH) | Cadeirydd Gweithredol, Professional Association of Self-Caterers UK |
| Emma Mcquillan (EM) | Pennaeth Cyfarwyddiaeth Llywodraethu, Caravan and Motorhome Club |
| Barbara Griffiths (BG) | Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru |
| Chris Brannigan (CB) | Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain |

| | |
|---|---|
| Fiona Peel (FP) | Cymdeithas Tywyswyr Teithiau Swyddogol Cymru |
| Katherine Haynes (KH) | Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu, Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain |
| Joanna Richardson (JR) | Uwch Swyddog Gweithredol Materion Cyhoeddus a Pholisi, British Marine |
| Phil Godsal (PG) | Iscoyd Park |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Delyth Jewell AS | AS dros Ddwyrain De Cymru |
| Heledd Fychan AS | AS dros Ganol De Cymru |
| Shoko Doherty | Prif Swyddog Gweithredol, Celtic English Academy |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Croeso a chyflwyniadau:

- Croesawodd SR bawb i'r cyfarfod gan amlinellu pleidlais y Senedd ar y Cynnig i ddirymu Gorchymyn Sgôr Annomestig (Diwygio Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022, a drafodwyd yng nghyfarfod olaf y grŵp.
- Croesawodd SD bawb i'r cyfarfod ar ran CTC.

Ymgynghoriad ar gynigion am ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol - https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/9/4/1663836804/ardoll-ymwelwyr.pdf

- Croesawodd SR DG ac AA o Lywodraeth Cymru, a gyflwynodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol.
- Yn ystod y cyflwyniad hwn, amlinellodd DG fod ardoll ymwelwyr yn gweithio'n dda ar draws llawer o wledydd Ewrop, ac y byddai arian a godwyd o hyn yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i'w wario ar weithio tuag at dwristiaeth gynaliadwy.
- Esboniodd DG fod yr ymgynghoriad ardoll i ymwelwyr yn dod o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn dilyn Etholiadau'r Senedd yn 2021.
- Dywedodd DG fod yr ymgynghoriad wedi'i lansio ar 20 Medi a bydd yn para tan 13 Rhagfyr 2022. Amlinellodd DG fod cannoedd o ymatebion wedi bod eisoes.

- Diolchodd SR i DG ac AA am eu cyflwyniad gan annog aelodau o'r Sector Twristiaeth i ymateb i'r ymgynghoriad ardoll ymwelwyr.
- Diolchodd SD i DG ac AA am eu cyflwyniad gan ofyn beth fydd dull Llywodraeth Cymru os yw'r ymgynghoriad yn cael ymateb gwahanol i'r hyn maen nhw'n ei ddisgwyl.
- Dywedodd DG ac AA yn glir mai gwleidyddion etholedig Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau polisi, ac na allai gweision sifil wneud sylw ar hyn.
- Gofynnodd AH i Lywodraeth Cymru am ba esemptiadau y gellid eu rhoi i'r ardoll ymwelwyr.
- Amlinellodd DG fod esemptiadau 'n cael eu hystyried, a allai gynnwys yr anabl, y lluoedd arfog, gwahanol fathau o dwristiaeth ac ati.

Diweddaru a thrafod Esemptiadau i'r Rheol 182 Diwrnod a’r Rheol 70 Diwrnod

- Yn dilyn y Cynnig i ddirymu Gorchymyn Sgôr Annomestig (Diwygio Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 nad oedd yn cael ei gefnogi gan y Senedd, bu'r grŵp yn trafod eithriadau i'r Rheol 182 Diwrnod a'r Rheol 70 Diwrnod.
- Amlinellodd AGW fod angen rhoi ymdrechion nawr i archwilio esemptiadau, a bod Cynghrair Twristiaeth Cymru yn cael trafodaethau cadarnhaol gyda Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn.
- Amlinellodd y grŵp fod hyn yn sefyllfa anwadal, ac fe wnaeth SR annog y Sector Twristiaeth i barhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch esemptiadau.

Trafod pellach a'r camau nesaf i'r Sector Twristiaeth

- Amlinellodd DC y byddai UK Hospitality Cymru yn hapus i ddarparu cymorth a chapasiti i’r grŵp. Diolchodd SR i DC am y cynnig hwn gan fynegi y byddai hyn yn cael ei drafod a'i ddefnyddio wrth symud ymlaen.
- Dywedodd SR fod cyfarfodydd y grŵp diweddar wedi trafod yn drylwyr Treth Dwristiaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru a'r Rheol 182 Diwrnod, ond hefyd y gallai cyfarfodydd yn y dyfodol edrych ar elfennau mwy cadarnhaol ar gyfer y Sector Twristiaeth.
- Amlinellodd SR hefyd sut y gall y grŵp gynnwys lletygarwch yn fwy yn ei drafodaethau ar y Sector Twristiaeth.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- Cynigiodd RI y dylai SR gael ei ethol yn Gadeirydd y grŵp, gyda CT yn eilio

- Cytunwyd hefyd mai Cynghrair Twristiaeth Cymru fyddai ysgrifenyddiaeth y grŵp trawsbleidiol.

Casgliad a phwyntiau gweithredu:

- Caeodd SR y cyfarfod a diolchodd i RI a CT am ei ethol fel Cadeirydd y grŵp.
- Diolchodd SD i bawb a oedd yn bresennol ac a gyfrannodd.